AM DDIM

Cyfnodolyn Synod Cymru Yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 218 Ebrill – Mai 2019

Synod Cymru

# Gwyliedydd



# Cyfarchion

## *gan Robin a Ffion*



Pan ddaw'r rhifyn hwn o'r wasg, mi fyddwn yn agosáu at yr Wythnos Fawr a'r Pasg, er mai dim ond wythnos gyntaf y Grawys ydi hi wrth inni ysgrifennu'r geiriau hyn. Hyfrydwch o'r mwyaf yw cael dymuno i'n darllenwyr a'n gwrandawyr holl fendithion y Pasg.

Hoffem ddiolch unwaith eto i bawb sydd wedi helpu gyda'r gwaith o baratoi'r rhifyn: pawb sydd wedi cyfrannu erthyglau a lluniau, ac wrth gwrs Elgan sydd unwaith eto gyda'i waith dylunio wedi rhoi siâp a sglein i'r *Gwyliedydd.*

Diolchwn yn ddiffuant i bawb sy'n anfon newyddion o'r gwahanol gapeli. Dyma asgwrn cefn y *Gwyliedydd.* Rydych chi, ohebwyr ffyddlon, yn gofalu ein bod i gyd yn cadw mewn cysylltiad â'n gilydd fel Talaith. Y tro hwn rydym yn croesawu gohebydd newydd o'r Tabernacl, Llanfyllin, sef Alwena Francis a diolch iddi am gymryd drosodd gan Robin Hughes sydd wedi ymddeol o'r swydd. Diolch o galon, Robin, am ohebu mor ddiflino dros gynifer o flynyddoedd. Yr un yw ein diolch i Margaret Blainey, gohebydd ffyddlon Pontrobert, nad yw'n gallu parhau â'r gwaith mwyach. Mae amryw o gapeli heb ohebydd. A fyddai modd denu rhywun i ymgymryd â'r swydd yn y capeli hynny? Mae'n siŵr y bydd amryw yn cofio sut y byddai Owain Owain yn ei ffordd afieithus yn cyhoeddi Cynghrair Gohebwyr, gyda chlod arbennig i'r rhai a ohebodd ym **mhob** rhifyn drwy'r flwyddyn. Pob rhifyn neu un yn achlysurol, byddem wrth ein boddau'n clywed gennych!

Ac rydym wrth ein boddau hefyd fod pumed cryno ddisg y *Gwyliedydd* yn cael ei baratoi – **wedi** cael ei baratoi erbyn i chi ddarllen neu glywed y geiriau yma! Diolch yn fawr i Synod Cymru am ariannu'r fenter, ac i'r ddwy sydd wedi bod yn ein helpu gyda'r gwaith yma, sef Bethan Dwyfor a Siwan Evans. Bethan sydd yn darllen y cyfan i gael ei recordio, a hynny bob amser mewn llais clir a chywir, a Siwan yw'r peiriannydd medrus sy'n deall y peiriannau cymhleth i'r dim, gan sicrhau na fydd unrhyw gamgymeriad yn digwydd.



**Patagonia**

Mae Siwan ar fin hedfan i ffwrdd i bellteroedd byd, i Batagonia, gan fynd â chopi electronig o'r *Gwyliedydd* efo hi i'w ddangos i bobl yno. Bydd yn aros yno hyd y Nadolig ac yn rhoi gwersi canu yn Ysgol yr Hendre, Trelew. Gobeithio y cawn ni neges a llun hwyrach oddi wrth Siwan a'i ffrindiau yn y Wladfa yn ystod y flwyddyn. Bydd peiriannydd arall yn ein gwasanaethu am y tro nes i Siwan ddychwelyd. Hwyl fawr, Siwan, yn Nhrelew!

**Calonogi**

Daeth nodyn diddorol gan Gwenda Humphries gydag adroddiad Bethel Prestatyn y tro hwn. Nodod rai o'r pethau oedd, meddai hi, wedi ei chalonogi **hyd yn hyn** yn 2019 (a dim ond mis Chwefror oedd hi!).

Dyma restr Gwenda:

- Gweld sinema fawr yn cael ei hatgweirio ym Manceinion a'i throi yn Eglwys
- Eglwys yn Lerpwl yn cael estyniad mawr
- Plant yn ein Hysgol Sul ni, wrth baratoi ar gyfer ein gwasanaeth "Fy Hoff Emyn" yn gallu enwi eu hoff emyn a'i chanu
- Baban newydd yn cael ei eni i deulu sy'n aelodau ffyddlon a gweithgar yn ein Capel

Beth am inni i gyd ddilyn esiampl Gwenda a gwerthfawrogi'r holl bethau calonogol sy'n digwydd o'n hamgylch?

**Thema**

Wrth ruthro llai a sylwi mwy, bydd ein diolchgarwch yn dyfnhau, gobeithio. Diolchwn i Dduw am ein cynnal ac am ein bwyd bob dydd. Yn rhyfedd iawn, heb i hynny gael ei fwriadu o gwbl, mae thema Bwyd fel petai'n rhedeg trwy'r rhifyn hwn! Ar yr un pryd ag y byddwn yn mwynhau danteithion y Pasg, nac anghofiwn y rhai sydd mewn angen. Gyda dyfodiad mis Mai, bydd cyfle unwaith eto i gyfrannu i ymdrechion Wythnos Cymorth Cristnogol.

# Gwyliedydd


**CYFNODOLYN SYNOD CYMRU YR EGLWYS FETHODISTAIDD**
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 218**
**EBRILL – MAI 2019**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru. 6 rhifyn drwy'r post £5.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**



**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk



**DYDDIAD CAU**
1 MAI 2019

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Talaith Cymru"

Dyluniwyd gan Elgan Griffiths
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa

Llun y clawr: Kevin Hellon


# O'R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**

Bob mis Chwefror, bydd y gŵr a minnau'n cymryd gwyliau bach, naill ai ym Mhrydain neu yn un o wledydd eraill Ewrop. Rydym wedi mwynhau penwythnosau hir yn ninasoedd Caerdydd, Copenhagen, Prâg, Brighton ac Amsterdam. Dro arall cawsom gyfle i fwynhau cefn gwlad Swydd Efrog, ucheldiroedd yr Alban a Chernyw, ymhlith llefydd eraill. Mae'n rhywbeth i edrych ymlaen ato, ar ôl y Nadolig, ac yn seibiant ar y daith tuag at y Pasg, sydd weithiau yn hir (fel eleni!). Gwyddom ein bod yn hynod ffodus i gael cyfle i fynd i ffwrdd fel hyn.

Braf felly oedd darllen ysgrif Bet Holmes am eglwys gadeiriol Durham yn y *Gwyliedydd* diwethaf. Dyna lle'r aethom ni eleni, i'r ddinas hardd a hanesyddol hon yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr. Rwy'n hoff iawn o'r rhan hon o'r byd. Treuliais fis yn Swydd Durham ar leoliad tra roeddwn yn y coleg diwinyddol, a dysgais lawer gan y bobl garedig, gyfeillgar y bûm yn eu plith.

Nawddsant Gogledd-ddwyrain Lloegr yw Cuthbert, y mae ei fedd i'w weld yn eglwys gadeiriol Durham. Roedd Cuthbert yn byw yn y seithfed ganrif, tua chanrif ar ôl Dewi yng Nghymru, ac mae'n bur debyg ei fod yr un mor agos at galonnau pobl Gogledd-ddwyrain Lloegr ag ydyw Dewi Sant at galonnau'r Cymry. Dydi hi ddim yn anarferol i drigolion Durham bicio i mewn i ymweld â bedd eu sant ac "i gael gair efo Cuddy", fel maen nhw'n dweud. Mae Cuthbert yn parhau o hyd i arwain pobl at Dduw.

"Oes y Seintiau" yw un enw ar gyfnod Dewi a Cuthbert a'u cydweithwyr dros yr Efengyl, rhwng y chweched a'r wythfed ganrif. Enw arall yw "Yr Oesoedd Tywyll" – nid oherwydd tywyllwch bywyd a chymdeithas yr oes ond oherwydd ein diffyg gwybodaeth am y cyfnod pwysig hwn. Diolch am y goleuni newydd a gawn o bryd i'w gilydd, er enghraifft trwy gyfrwng darganfyddiadau archeolegol fel Celc Swydd Stafford yn 2009. Mae'n hysbys bod hwn yn gyfnod o newid enfawr yng ngwledydd Prydain. Does dim angen atgoffa pobl Cymru, yn dilyn ymadawiad y Rhufeiniaid, i oresgynwyr eraill gyrraedd yr ynysoedd hyn gan ddod â newid a thrais. Newidiodd bywyd yr eglwys hefyd yn y rhan hon o'r byd yn ystod amser Cuthbert, gan i Synod Whitby yn 664 benderfynu dilyn traddodiadau'r eglwys Rufeinig yn hytrach na'r traddodiadau Celtaidd. Roedd rôl arweinwyr Cristnogol fel Cuthbert a Dewi yn bwysig dros ben i bobl eu hoes, gan gynnig sicrwydd y Newyddion Da, cariad a gobaith mewn sefyllfa o berygl, ofn ac ansicrwydd. Dim syndod ein bod ni'n parhau i'w cofio a rhoi diolch i Dduw amdanynt.


Wrth i mi eistedd yn eglwys gadeiriol Durham, yn myfyrio ar fywyd Cuthbert a gweddïo ar Dduw am ysbrydoliaeth drwy fywydau ei saint, meddyliais am y tebygrwydd rhwng oes Cuthbert a'n hoes ni. Mae ein bywyd gwleidyddol a chymunedol yn ymddangos yn sigledig. Ansicr hefyd yw llawer o bethau ym mywyd yr eglwysi ym Mhrydain wrth edrych i'r dyfodol. Mae gennym ni yn Synod Cymru gwestiynau mawr o'n blaenau, ynghylch dyfodol cenhadaeth a gweinidogaeth yr Eglwys Fethodistaidd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n ddigon i beri inni deimlo amheuaeth ac ofn.

Serch hynny, fe'm trawyd gan rywbeth arall, wrth imi fyfyrio yn eglwys gadeiriol Durham. Os buoch yno erioed, fe wyddoch pa mor solet yw'r adeilad. Mae'r colofnau enfawr yn edrych fel pe na byddai dim byd am allu eu siglo; yn wir nid oes dim wedi eu siglo ers mil o flynyddoedd. Roeddent yn siarad â mi am natur dragwyddol, ddigyfnewid a chadarn Duw a'i gariad. Mae'r byd yn newid o oes i oes, ond ni fydd Duw byth yn newid. Mae Ef gyda ni, fel yr oedd gyda Dewi a Cuthbert, a bydd gyda'i bobl am byth, drwy'r oesoedd a ddêl wedi i ni adael y ddaear hon.

Wrth inni ddathlu'r Pasg unwaith eto, gadewch inni gofio'r gwirionedd hwn, gan geisio byw ein bywydau yn ei oleuni a rhannu'r gwirionedd ag eraill. Trwy atgyfodiad Iesu, mae Duw gyda ni, ac ni all dim ein gwahanu oddi wrtho Ef a'i gariad. Yng ngeiriau sant arall, Teresa Avila, "Paid â gadael i ddim byd dy gynhyrfu, paid â gadael i ddim byd dy ddychryn. Mae popeth yn mynd heibio; Duw yn unig sydd yn ddigyfnewid. Mae amynedd yn ennill popeth. Ni fydd dim yn eisiau i'r hwn y mae Duw ganddo. Digon yw Duw." Ie, wir. Bendithion y Pasg i chi.

# Cnoi Cil

gan Gwyndaf Roberts






Heb os nac oni bai, y Beibl Cymraeg Newydd a gyhoeddwyd yn 1988 yw llyfr pwysicaf yr ugeinfed ganrif. Mae gennym fel cenedl ddyled fawr i do o ysgolheigion a fu'n ddiwyd o 1961 hyd fis Mawrth 1988 pan welodd ffrwyth eu gwaith olau dydd am y tro cyntaf. Un o'r ysgolheigion hynny oedd y Parchedig Ddr Owen E Evans a fu'n rhan o'r gweithgor o 1963 ymlaen ac yntau, y pryd hynny, yng Nghadair y Testament Newydd yng Ngholeg Hartley Victoria Manceinion. Daeth i Fangor yn 1969 fel darlithydd y Testament Newydd ac yn 1974 fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr y Beibl Cymraeg Newydd.

Wedi ymddeol o'r coleg yn 1988 bu wrthi'n paratoi *Mynegair i'r Beibl Cymraeg Newydd* gyda chymorth y Parchg. David Robinson, arbenigwr ym maes Cyfrifiadureg. Fe ddaeth y gyfrol o'r Wasg yn 1998. Mae i'r gyfrol dros fil o dudalennau ac mae'n adnodd cwbl angenrheidiol i'r sawl sy'n astudio'r Beibl. Nid gormod yw dweud mai mynegair Owen E Evans yw ail lyfr pwysicaf yr ugeinfed ganrif yn y Gymraeg.

Ar lawer ystyr plentyn yr ugeinfed ganrif yw *Caneuon Ffydd*. Yn 1993 sefydlodd y pum enwad bwyllgorau ar gyfer llunio llyfr emynau. Daeth yr argraffiad cyntaf o'r wasg yn 2001 gyda'r eglwysi bellach wedi hen gynefino â'r llyfr wedi deunaw mlynedd o'i ddefnyddio.

Pantycelyn yw'r emynydd amlycaf yn *Caneuon Ffydd* gydag 88 o emynau uwchben ei enw. Gydag ef yn rhestr y deg emynydd uchaf y mae Elfed gyda 44, W Rhys Nicholas 25, Charles Wesley 21, Siôn Aled a Nantlais 17, Ann Griffiths 15, Hywel M Griffiths 13, ac Arfon Jones a Morgan Rhys 11. Gellir dod i'r casgliad bod chwaeth yr oes wedi newid gan fod 258 o emynau gan Pantycelyn yn Llyfr y Methodistiaid, 23 gan Elfed, Charles Wesley a Morgan Rhys 21, Ann Griffiths 16 ac 13 gan Nantlais. Yn ôl pob golwg, mewn cyfnod o dri chwarter canrif, cynyddodd poblogrwydd Elfed yn fwy nag unrhyw un arall o gyfranwyr yr hen lyfrau emynau.

Tinc telynegol sydd i emynau Elfed. Efallai ei fod wedi'i ddylanwadu gan waith Ceiriog, bardd mwyaf poblogaidd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan iddo gyhoeddi astudiaeth o waith y gŵr o Lanarmon yn 1899. Wrth ddarllen *Caneuon Ffydd* daw rhywun yn ymwybodol bod llawer o'i emynau yn rhai y gellir eu hadrodd o'r cof heb fod angen y llyfr.

Roedd Elfed yn Brifardd a bu'n Archdderwydd o 1924 hyd 1928. Erbyn 1930 ac yntau yn 70 oed, roedd yn hollol ddall. Bu'n briod ddwywaith cyn 1930 ond y flwyddyn honno priododd ei drydedd wraig, sef Mary Davies a bu ei chymorth hi yn fodd iddo barhau i deithio a phregethu hyd ei farwolaeth yn 93 oed ar 10 Rhagfyr 1953. Yn ystod cyfnod ei ddallineb, gofynnwyd iddo sut y gallai adrodd darnau o'r Beibl a'r llyfr emynau mor dda. Ei ateb oedd ei fod wedi dysgu llawer pan oedd yn ifanc ac wedi eu storio ym manc ei gof. Dyna arfer sy'n prysur ddiflannu o'r tir ac rydym oll yn dlotach mewn canlyniad.

Gweinidog enwog arall oedd y Parchedig John Puleston Jones (1862-1925) ac mae ei hanes wedi'i gofnodi o'r newydd gan Harri Parri yn ei gyfrol *Cannwyll yn Olau.* Cawn ddisgrifiad o'r ddamwain a gafodd pan yn 18 mis oed wrth i ddarn o wydr ei ddallu mewn un llygad ac i hynny arwain iddo golli ei lygad arall hefyd. Llwyddodd i ddysgu *Braille* mewn coleg i'r deillion cyn mynd wedi cyfnod ym Mhrifysgol Glasgow i Goleg Balliol, Rhydychen lle enillodd radd Dosbarth Cyntaf mewn Hanes Diweddar. Ordeiniwyd ef yn 1888 a bu'n weinidog ym Mangor, Dinorwig, Pwllheli a Llanfair Caereinion. Yn gefn iddo pan oedd yn ifanc oedd ei fam, Mary Ann Jones a wnaeth iddo wynebu ei anawsterau mewn modd cadarn iawn.

Yn Rhagfyr 1890 priododd Puleston ag Annie Alun Jones a bu hi wrth ei ochr weddill y daith. Nid yn unig bu hi'n fam i Alun a Martha Myfanwy, ond gofalai hefyd am drefniadau teithiau pregethu ei gŵr wrth iddo fentro ar ei ben ei hun ar drên i bedwar ban gwlad. Os bu gwraig gweinidog berffaith erioed, Annie Alun oedd honno.

Mae *Cannwyll yn Olau* yn adrodd hanes gweinidog a heddychwr dewr wrth lwyddo i roi golwg ar gyfnod pwysig yn hanes ein gwlad. Mae Harri Parri wedi llwyddo i ddwyn y dyn mawr hwn i sylw cenhedlaeth newydd. Diolch iddo am ei gymwynas.



Diolchwn yn gynnes unwaith eto am y tanysgrifiadau a'r rhoddion caredig a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r Gwyliedydd.

| | |
|---|---|
| Llyfrgell Ganolog Caerdydd | £5 |
| R Tegid Jones, Rhosllanerchrugog | £30 |
| Mrs A M Edwards, Llanfair Talhaearn | £20 |
| Eifion Lloyd Jones, Prion, Dinbych | £25 |
| Iola Evans, Croesoswallt | £10 |
| Merle Davies, Abergwaun | £5 |
| Trygan Roberts, Abergele | £5 |
| M E Roberts, Abergele | £50 |
| M R Davies, Ffairfach, Llandeilo | £10 |
| Prifysgol Bangor | £5 |
| **Cyfanswm** | **£165** |

# Esgyrn

*gan y Canon Idris Thomas*



*Chwarel Dinorwig*

Caiff pobol eu denu i weld esgyrn enwogion mewn sawl man yn y byd. Pawb at y peth y bo! Dwy flynedd ar bymtheg yn ôl cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn ninas fechan Tyddewi ac ychydig cyn i'r Ŵyl gychwyn daeth y newydd nad esgyrn Dewi Sant oedd wedi eu cadw mewn cist yng nghrombil y Gadeirlan hardd. Yn naturiol, daeth hyn â thipyn o siom i amryw oedd wedi gobeithio mai esgyrn ein nawddsant oeddent. Dychmygwch faint mwy o ymwelwyr fyddai wedi heidio i Dyddewi, gan lenwi'r ddinas fechan hyd yr ymylon, pe cawsid ar ddeall mai esgyrn Dewi oedd yno. Ond er gwybod nad esgyrn Dewi Sant oedd yn y gist yn Nhyddewi, nid yw ein hedmygedd yn ddim llai o waith mawr Cristnogol Dewi yn dwyn Cymru i Grist a hynny yn ddiflino.

Yn sgil y newydd hwn yn Nhyddewi, cyhoeddwyd datganiad gwerth ei gael gan awdurdodau'r Gadeirlan sef "nid esgyrn yw diben y ffydd Gristnogol, ac nid cadw esgyrn ac addoli esgyrn fyddwn ni". Dyna daro'r hoelen ar ei phen heb unrhyw lol. Nid mewn esgyrn y mae sail y ffydd Gristnogol ond mewn bedd a hwnnw yn wag. Ni ddibynna ein Ffydd ar olion dynol ond ar adnabod Iesu fel Arglwydd byw. Gwastraff llwyr a heb bwrpas o gwbl yw dyfalu am esgyrn Iesu oherwydd nid ydynt ar gael i drafferthu yn eu cylch, a hynny oherwydd fe atgyfododd. Gwag yw'r bedd a'r Iesu'n fyw. Pan ddaeth y gwragedd yn fore i eneinio'r Iesu ar y Pasg cyntaf, y neges a gawsant oedd – "Y mae wedi cyfodi, nid yw yma" ac mae rhai o emynau'r Ŵyl y byddwn yn eu canu wrth ddathlu'r Pasg yn adleisio hyn.

"Lle bu'r corff yn gorwedd, wele'r amdo gwyn"

"Cododd Iesu! Ocheneidiau droes yn gân"

Nid arwr marw sydd gennym ond Arglwydd byw. Edrychaf o'm cwmpas ar drothwy'r Pasg a gwelaf rym y Gwanwyn gwyrdd a ffrwydrad ei dyfiant o fywyd newydd wedi misoedd hir a llwm ar y llechweddau hyn. Clywn pan yn blentyn aml i ffrwydrad o Chwarel Dinorwig wrth i'r hogia chwythu'r graig a dyna a fynegir mewn un emyn i'r Pasg –

"Fe ffrwydrodd bywyd Iesu
I chwalu craig y bedd".

Ie, nid swp o esgyrn ond presenoldeb byw yw neges pob Pasg. Mwynhawn yr Ŵyl eleni oherwydd cofier mai pobol y Pasg ydym oll.

**Merched Methodistaidd**
Cynhelir cyfarfod yn Seilo, Llandudno am 2.30pm ar 27 Ebrill. Anerchir gan y Parchg. Anna Jane Evans, Cymorth Cristnogol. Croeso cynnes i bawb.

**SUT MAE GWEITHREDU DROS BLANT YN GWEITHIO**

Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at Gweithredu dros Blant, sydd wedi dod i law ers rhifyn diwethaf y *Gwyliedydd*:

Er cof am y Parchg. Gwylfa H a Mrs Doris Morgan **£25.00**
gan Eirian, Alwyn a Wyn a'r teuluoedd
Er cof am y Parchg. Clifford a Mrs Lillian Roberts **£20.00**
gan Geraint a'r teulu
Er cof am y Parchg. William O Thomas **£25.00**
gan Ann, Nia, Bethan a'r teulu
Pendref, Dinbych **£122.00**
Miss Gwenda Evans, Llanelwy (blwch casglu) **£64.54**
Salem, Rhyd-y-foel (gwasanaeth carolau) **£175.00**

Anfonwyd cyfanswm o **£431.54** yn enw Synod Cymru.

Gyda diolch am eich cefnogaeth.
Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

### Horeb, Llanrwst

**CYDYMDEIMLO**
Ganol fis Chwefror fe gollwyd aelod ffyddlon iawn sef Mrs Margaret Foulkes a hithau wedi cyrraedd oedran teg. Hanai Mrs Foulkes o ardal Trofarth ond ymgartrefodd hi a'i phriod, y diweddar Snowden Foulkes, yn Llanrwst dros hanner can mlynedd yn ôl. Daeth cynulleidfa deilwng i dalu'r gymwynas olaf yng nghapel Penuel, Llanrwst. Cydymdeimlwn â Haydn a fu'n hynod ofalus o'i rieni, ynghyd â gweddill y teulu, yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

Cydymdeimlwn â Mrs Anne Jones yn ei phrofedigaeth o golli nith yn ddiweddar.

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein cofion at Mr Maldwyn Evans, gŵr Catherine. Dymunwn wellhad buan iddo wedi ei lawdriniaeth ddiweddar.

**CYFARFOD GWEDDI BYD EANG**
Cymerwyd rhan yn y cyfarfod, a gynhaliwyd ar 1 Mawrth yng Nghapel Heol Scotland, gan Mrs Marcia Jones a Mrs Einir Jones o Horeb.

**CINIO CYNNIL**
Tro capel Horeb oedd cynnal y 'Cinio Cynnil' ddydd Mercher, 20fed o Fawrth. Mae pob eglwys yn ei thro yn cynnal y cinio yn ystod cyfnod y Grawys. Mae'n gyfle da i gyfarfod a chael sgwrs yn ogystal â chodi arian at achos teilwng.

**GOHEBYDD .** EIRA JONES

### Shiloh, Tregarth

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau i Huw Morris Jones, Tal y Cae, un o selogion yr Oedfa Plant ac Ieuenctid sydd newydd ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed ar Chwefror 10. Mae Huw yn ddisgybl chweched dosbarth yn Ysgol Tryfan, Bangor.

Dymuniadau gorau hefyd i Helen Wyn sydd wedi dathlu pen-blwydd. Wrth ein boddau yn eich clywed yn sgwrsio fel gwestai ar Raglen Dewi Llwyd, Helen!

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â theulu'r ddiweddar Margaret Owen a fu farw ddechrau Ionawr. Bydd bwlch ar ôl Margaret yma yn Shiloh. Cydymdeimlwn yn ogystal ag Angharad Williams, ei phriod Gerallt a'r bechgyn Bleddyn a Gethin a'r teulu, a wynebodd ddwy brofedigaeth o fewn pum wythnos i'w gilydd. Bu farw mam Gerallt, sef Megan Williams, yn Ionawr a'i phriod Len ddechrau Mawrth. Yn frawychus o sydyn bu farw Manon Wynne Pritchard, gwraig Alun a mam Emily ac Ela. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf â'r teulu. Cydymdeimlwn hefyd â Ffion a Paul Rowlinson a'r teulu: bu farw Dafydd Ioan, cefnder Ffion, ym Mhwllglas, Rhuthun ddiwedd mis Chwefror.

**Y CAPEL A'R ARDD**
Rydym yn falch iawn bod y gwaith atgyweirio yn awr wedi'i gwblhau. Mae'r rhosynnau wedi eu tocio yn ddestlus yn yr ardd hefyd a diolchwn i Wynne Roberts am ei waith. Croeso i bawb i'n hoedfa bob nos Sul am 5 o'r gloch, a chofiwch hefyd am y Drws Agored ar foreau Gwener. Byddwn yn falch o'ch gweld bryd hynny am baned a sgwrs.

**GOHEBYDD .** GWENDA DAVIES

### Bethel, Rhiwbeina

**GWASANAETHAU**
Yn ddiweddar cawsom y pleser o groesawu atom y Parchedigion D Andrew Jones a Dafydd Owen a hefyd Mr Mansel Jones i arwain ein gwasanaethau. Cawsom yn ogystal oedfa'r Cymun Bendigaid o dan arweiniad ein gweinidog, y Parchedig Evan Morgan.

**COLLED**
Trist iawn oedd clywed am farwolaeth y seiciatrydd adnabyddus, Dr Tom Davies, gynt o Flaendulais. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i briod Rosina, ei blant Lisa ac Iwan a'r wyrion Aron ac Elis. Roedd cynulleidfa niferus iawn yn ei angladd ar 8 Chwefror o dan arweiniad ein gweinidog y Parchedig Evan Morgan, yn tystio i'r parch mawr oedd i Tom.

**Y GYMDEITHAS**
Roedd pawb wedi edrych ymlaen at ddathlu Gŵyl Dewi ar 5 Mawrth, pryd yr ymunwyd am ginio yn y 'Caffi Fach' yn Rhiwbeina. Ni chawsom ein siomi. Yng nghyfarfod mis Ebrill byddwn yn croesawu Mrs Ann Mears atom unwaith eto i'n diddanu gyda'i sgiliau trefnu blodau.

**CROESO I'R OEDFAON**
Cynhelir gwasanaeth yng nghapel Bethel bob bore Sul am 10.15. Estynnir croeso twymgalon i bawb. Fe gynhelir Ysgol Sul yn achlysurol hefyd.

**GOHEBYDD .** GWILYM E. ROBERTS

### Ebeneser, Trefor, Môn

**CROESO NÔL I'N HORGANYDD**
Rydym i gyd yn falch iawn fod braich ein horganydd, Mrs Gwyneth Thomas, wedi gwella'n ddigon da iddi allu cyfeilio i ni unwaith eto. Roedd yn chwith iawn hebddi er bod pawb yn trio ei orau i ganu neu gydadrodd yr emynau. Rydym yn ddiolchgar i'r Parchedig Richard Gillion am ddod i'r adwy gyda'i gitâr pan oedd gyda ni. Cymerwch ofal, Gwyneth!

**GOHEBYDD .** CARYS THOMAS

### Ebeneser, Dolgellau

**DYMUNO GWELLHAD BUAN**
Da yw clywed bod Gwyneth Meredith a Bryngwyn Thomas adref yn dilyn llawdriniaethau yn ddiweddar. Dymuniadau gorau am wellhad buan i'r ddau ohonynt.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau i Gwawr a Siôn Williams ar enedigaeth Guto Rhys, brawd bach i Awel a Mared ac ŵyr i Jane a Bryngwyn Thomas, Glanrhyd, Dolgellau. Pob dymuniad da i'r teulu.

**CYFARFOD**
Mae aelodau Ebeneser yn edrych ymlaen at gyfarfod gyda Delyth Wyn Davies, Swyddog Dysgu a Datblygu Synod Cymru ar y 7fed o Ebrill. Bydd yn arwain trafodaeth ynglŷn â Chynllun Tyfu i'r Eglwys.

**DIOLCH**
Rydym yn llawenhau ac yn diolch am rodd hael o glustogau seddi newydd i'r Capel. Fe'u rhoddwyd er cof am Mrs Anne Kerry oedd yn aelod selog o Ebeneser.



**GOHEBYDD .** BERYL NORGROVE



### Preswylfa, Cyffordd Llandudno

**CYDYMDEIMLO**
Fel Eglwys cydymdeimlwn yn ddwys iawn â'n horganydd Mrs Jane Jones yn y brofedigaeth fawr o golli ei merch, Margaret Williams, a hefyd Marian, Geraint a Siân ar golli eu chwaer.

**DYDD GWEDDI BYD-EANG**
Cynhaliwyd y gwasanaeth eleni yn Eglwys Pensarn dan arweiniad Miss Sheryl Jones gyda Mrs Catherine Watkin yn cyfeilio. Cymerwyd rhan gan ferched Capel Coffa, Preswylfa a Phensarn.

**PEN-BLWYDD ARBENNIG**
Dymuniadau gorau i Islwyn Evans ar ddathlu ei ben-blwydd yn 80 oed.

**GOHEBYDD .** EIRIAN JONES

### Tabernacl, Llanfyllin

**SUL Y GWAHANGLEIFION**
Braf oedd cael cwmni Huw Ellis i arwain y gwasanaeth arbennig hwn oedd wedi cael ei baratoi gan Genhadaeth y Gwahangleifion – a hynny mewn modd diddorol a hwyliog. Llwyddwyd i anfon £260 i gynorthwyo'r elusen arbennig hon.

**OEDFA GŴYL DEWI**
Oedfa arbennig arall a gawsom oedd oedfa Gŵyl Dewi, pryd y bu i ni ymuno â chynulleidfa Capel Pendref. Y Gweinidog oedd yn gofalu am yr oedfa a chanolbwyntiodd ar bum emyn gwladgarol / cenedlaethol, gan sôn am gefndir yr emynwyr a'r emynau. Cawsom y fraint hefyd o gyd-ddarllen Salm y Genedl. Cymerwyd rhan gan aelodau'r Gymdeithas Gymraeg.

**CYDYMDEIMLO**
Gyda thristwch a chydymdeimlad y meddyliwn am Gwynfryn ac Ann Jones, Llawr y Cwm, yn eu galar a'u hiraeth o golli eu merch, Janet, yn annisgwyl. Bu Janet yn nyrs gymunedol yn yr ardal ac yn ferch annwyl a charedig. Cofiwn am ei gŵr, Tim, a'r plant Hannah a Haydn yn ogystal â'i brawd, Paul, a'i deulu yntau. Daeth profedigaeth i ran aelodau eraill a'u teuluoedd, trwy i Mair Ellis ac Eldrydd Jones golli perthnasau agos. Ein cydymdeimlad â hwythau hefyd.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llawenydd yw llongyfarch Roy ac Anwen Griffiths ar enedigaeth ŵyr bach newydd o'r enw Tegid Owen, sef mab i Mererid a Geraint a brawd bach i Gwenllian.

**CARTREF NEWYDD**
Dymunwn yn dda i Owain a Hannah, mab a merch yng nghyfraith Roy ac Anwen, sydd wedi codi pac a symud i fyw i'r Almaen. Dymuniadau gorau i'r teulu oll.

**DIOLCH**
Hoffwn ddiolch yn fawr i Robin Hughes am flynyddoedd o ohebu i'r Gwyliedydd, a hynny mor drefnus a phrydlon. Gobeithio y bydd yn dal i fedru anfon englyn o dro i dro neu efallai emyn neu garol o waith Mona ei wraig. Diolch o galon, Robin, am eich gwaith.

**GOHEBYDD .** ALWENA FRANCIS

### Pendref, Dinbych

**OEDFAON BENDITHIOL**
Cynhaliwyd oedfaon bendithiol yn y misoedd diwethaf o dan ofal y Parchedig Tudur Rowlands, y Parchedig Ddr Jennie Hurd, Yr Hybarch Bernard Thomas, Mr Royce Warner a Mr Dilwyn Jones. Hoffem ddiolch hefyd i'r rhai a gymerodd ran yn y tri chyfarfod gweddi a gynhaliwyd pan nad oedd pregethwr ar gael.

**GWEITHREDU DROS BLANT**
Yn ein hoedfa ar 27 Ionawr, o dan ofal y Parchedig Ddr Jennie Hurd, cafwyd casgliad ariannol arbennig ar gyfer *Gweithredu dros Blant*. Da dweud fod y cyfraniadau yn hael iawn.

**GOHEBYDD .** MARY JONES

### Ebeneser, Eglwysbach

**TAITH IWERDDON**
Nos Wener Chwefror 15 daeth y Parchedig Philip a Mrs Catherine Barnett i Festri Ebeneser i ddangos sleidiau o'u taith o gwmpas arfordir Iwerddon y llynedd yn eu Morris Minor. Nod y daith oedd codi arian tuag at Ymchwil MS a buont yn llwyddiannus iawn. Mwynhawyd noson ddifyr iawn yn eu cwmni.

**CADW'N HEINI**
Efallai i rai sylwi, yn y llun o barti Nadolig Ebeneser yn y *Gwyliedydd* diwethaf, fod rhes o feics cadw'n heini yn y cefndir. Y rheswm am hyn yw fod sesiynau cadw'n heini'n cael eu cynnal yn y festri yn wythnosol, dan ofal Cyngor Conwy. Mae gwersi Cymraeg i oedolion yn cael eu cynnal yma hefyd gan Brifysgol Bangor bob nos Iau. Yn ogystal â rhoi incwm i'r capel, mae'r gweithgareddau hyn yn gyfle i ni ddangos croeso i bobl leol.

**GOHEBYDD .** CHARLES CRAPPER

### Ebeneser, Caernarfon

**GWASANAETH SEFYDLU**
Ar 2 Chwefror eleni cynhaliwyd Gwasanaeth Sefydlu'r Parchedig Euron Hughes yng Ngofalaeth Bro Caereinion. Mae Euron yn fab i Ronnie a Gwenda Hughes, Llanddeiniolen. Boed bendith Duw ar ei weinidogaeth yn yr ardal.

**ER COF ANNWYL**
Yn frawychus o sydyn, bu farw Megan Roberts, a fu'n ysgrifennydd Eglwys Ebeneser am dros ugain mlynedd. Yn wraig gadarn a medrus, fe wynebodd broblemau dirifedi ar y daith oherwydd cyflwr adeiladwaith ein capel hardd. Cawsom ein hysbrydoli gan Megan i fod yn wrol ac wynebu beth bynnag a ddêl, gyda'n gilydd.

**GOHEBYDD .** BRANWEN L. EDWARDS

**Er cof annwyl am y ddiweddar Megan Roberts**
***gan y Parchedig Gwynfor Williams***
Yn dawel yng nghwmni ei hanwyliaid, ar 16 Ionawr eleni, bu farw Mrs Megan Roberts, Ala Las, Caernarfon a hithau'n 80 mlwydd oed. Yn enedigol o fferm Pen y Bryn, Bryneglwys, cafodd ei haddysg yn Ysgol y Sir, Rhuthun, cyn mynd ymlaen i'r Coleg Normal ym Mangor a chymhwyso fel athrawes. Bu'n dysgu am gyfnod hir a hapus yn Ysgol Dyffryn Conwy, Llanrwst ac yna fe'i penodwyd yn Ddirprwy Brifathrawes yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon lle y bu hyd ei hymddeoliad. Ar ôl symud i Ddyddyn Hen ger Caernarfon cafodd ei gŵr Glyn a hithau gyfle i fwynhau ffermio, ac yntau yn cael pleser mawr o hyfforddi cŵn defaid.



Bu i Glyn a Megan ymroddi mewn gwasanaeth i fywyd y dref yn gyffredinol, yn arbennig felly i gapel Ebeneser, yr Eglwys Fethodistaidd, lle bu'r ddau yn flaenoriaid a swyddogion gwerthfawr. Yn dilyn marwolaeth Glyn symudodd Megan i fyw yn y dref gan barhau i fod mor weithgar ag erioed. Daeth tyrfa fawr i'w hangladd ar 1 Chwefror. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â'i chwaer-yng-nghyfraith, Mair, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

### Eglwys Unedig Colwyn

**CYFARFODYDD GWEDDI**
Diolch i Arfon a Gwenllian am ein cynrychioli yn y Cyfarfodydd Gweddi Undebol ym misoedd Ionawr a Chwefror.

**CROESO'N ÔL**
Cawsom y fraint a'r pleser o groesawu'r Parchg Philip Barnett yn ôl i'n plith yn ddiweddar. Diolch iddo am ei wasanaeth ac am ei waith ar yr organ.

**... parhau ar dudalen 10**

# Bywyd Ysbrydol: Delweddau



## *gan y Diacon Stephen Roe*

Bob blwyddyn, yn ystod tymhorau'r Adfent a'r Grawys, byddaf yn ceisio defnyddio llyfr o ddarlleniadau Beiblaidd, myfyrdodau a gweddïau er mwyn fy nghynorthwyo yn fy mywyd a'm taith ysbrydol yn yr amser sydd yn arwain at y Gwyliau Cristnogol mawr sef y Nadolig a'r Pasg.

Y llynedd, yn ystod tymor yr Adfent, defnyddiais lyfr gan Margaret Silf, sef 'Lighted Windows'. Pwrpas y llyfr yw helpu'r darllenydd i edrych trwy ffenestr, fel petai, a chael cipolwg ar Dduw.

Rydym i gyd yn gyfarwydd ag amrywiaeth eang o ddelweddau sy'n disgrifio Duw: tad, bugail, brenin, arglwydd. Mae'r rhan fwyaf yn wrywaidd, ond mae rhai benywaidd hefyd. Mae Hosea yn cymharu dicter Duw ag arth wedi colli ei chenawon (13.8), ac mae Eseia yn dweud 'fel y cysurir plentyn gan ei fam, byddaf fi'n eich cysuro chwi'. Mae rhai o'r delweddau hyn yn ein helpu i gael gwell dealltwriaeth o natur Duw a dod i berthynas agosach ag Ef, ond ai felly pob un ohonynt?

Hoffwn gynnig ychydig o feddyliau ynglŷn â dau ddarlun sydd yn cynrychioli a dangos llun o'n perthynas â Duw. I mi, mae'r naill o gymorth ond nid felly y llall. O lyfr y proffwyd Jeremeia y daw'r ddau.

Yn gyntaf, Jeremeia 13. 7-8: 'Bendigedig yw'r sawl sy'n hyderu yn yr Arglwydd, a'r Arglwydd yn hyder iddo. Y mae fel pren a blannwyd ar lan dyfroedd, yn gwthio'i wreiddiau i'r afon, heb ofni gwres pan ddaw, a'i ddail yn ir; ar dymor sych ni phrydera, ac ni phaid â ffrwytho.'



Yn ail, yn y bennod nesaf, Jeremeia 18. 3,5-6: 'Euthum i lawr i dŷ'r crochenydd, a'i gael yn gweithio ar y droell. Yna daeth gair yr Arglwydd ataf, "Oni allaf fi eich trafod chwi, tŷ Israel, fel y mae'r crochenydd hwn yn ei wneud â'r clai? Fel clai yn llaw'r crochenydd, felly yr ydych chwi yn fy llaw i, tŷ Israel." Does gan y clai ddim dewis beth y mae'r crochenydd yn ei wneud ag ef, mae'n hollol oddefol, ac os bydd y crochenydd yn dymuno difwyno'r llestr a'i ail-wneud yn llestr gwahanol, nid oes dim byd y gall y clai ei wneud am hyn. Dydw i ddim yn gweld fy mherthynas â Duw fel hyn. Mae Duw wedi rhoi ewyllys rydd imi, ac felly mae gen i ddewis, hyd yn oed i wrthod Duw, os dyna fy nymuniad. Ac ni all Duw roi ewyllys rydd imi, a'm trin hefyd fel y mae crochenydd yn trin ei glai.

I bob un ohonom, bydd rhai delweddau yn golygu mwy nag eraill. Y cyfan y mae'r ddelwedd yn ei wneud yw cynnig cipolwg trwy ffenestr, cipolwg ar natur Duw ei hun. Ac os nad yw'r olygfa trwy un ffenestr arbennig o gymorth i chi, yna dewiswch ffenestr arall.

- Pa adnoddau ydych chi'n eu defnyddio er mwyn eich helpu yn eich bywyd ysbrydol, mewn tymhorau cyffredin neu mewn tymor arbennig fel yr Adfent a'r Grawys?
- Ydych chi'n cytuno â'm meddyliau i ynglŷn â'r pren a'r crochenydd?
- Wrth i chi fynd o gwmpas eich bywyd bob dydd, pa ddelweddau o Dduw ydych chi'n sylwi arnynt yn y byd?

# 'Bwydo Boliau Nid Biniau': Yr Eglwys ar Waith

## *gan Lionel Madden*

Mae llawer ohonom yn pryderu am y gwastraff bwyd sydd mor gyffredin yn ein cymdeithas y dyddiau hyn. Rydym yn ffodus yn Aberystwyth bod gennym grŵp sy'n annog pobl a busnesau yn y dref i geisio osgoi taflu bwyd da i'r bin. Enw'r grŵp yw Bwyd Dros Ben Aber : Aber Food Surplus. Mae'r grŵp, sydd wedi derbyn grantiau o'r Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru, yn weithgar iawn yn y gymuned yn ceisio lleihau maint y bwyd sy'n cael ei wastraffu.

Yn 2017 penderfynodd rhai aelodau o Ganolfan Fethodistaidd Sant Paul ystyried y posibilrwydd o gydweithio gyda Bwyd Dros Ben Aber trwy gynnig pryd o fwyd yn y Ganolfan unwaith yr wythnos. Gyda chaniatâd Pwyllgor Rheoli'r Ganolfan cytunwyd i gynnal caffi 'talu fel y dymunwch : pay as you feel' i ddarparu cinio bob dydd Iau. Dechreuodd y fenter newydd fis Medi 2017 am gyfnod arbrofol o dri mis yn y lle cyntaf. Gan fod yr arbrawf yn llwyddiannus mae'r caffi wedi parhau hyd heddiw.

Mae'r caffi yn defnyddio bwyd dros ben a roddir i Fwyd Dros Ben Aber gan archfarchnadoedd lleol. Tua 9.30 ar fore Iau mae aelod neu aelodau o'r tîm yn casglu'r bwyd o swyddfa Bwyd Dros Ben Aber a mynd ag ef i'r gegin yn y Ganolfan. Wedyn mae'r tîm yn mynd ati i baratoi cinio. Y trefniant arferol yw i un aelod o'r tîm fod yn gyfrifol am benderfynu beth fydd yn cael ei baratoi ar gyfer pob cwrs ac wedyn mae aelodau o'r tîm yn rhannu'r tasgau rhyngddynt. Fel arfer cynigir cinio tri chwrs yn cynnwys cawl, prif gwrs a phwdin. Mae'r fwydlen bob tro yn rhestru'n fanwl holl gynnwys pob cwrs. Yr her, wrth gwrs, yw dyfeisio pryd o fwyd pan nad oes modd gwybod beth fydd ar gael hyd nes iddo gyrraedd. Mae'r fwydlen yn newid o wythnos i wythnos yn dibynnu ar yr hyn sy'n dod i mewn o'r archfarchnadoedd. Derbynnir yn bennaf lysiau, ffrwythau a bara. Ni dderbynnir cig ac, wrth gwrs, mae'n rhaid i'r tîm brynu ychydig o eitemau ychwanegol yn ôl yr angen.

Gan fod pawb yn gwneud y gwaith yn wirfoddol mae'r trefniadau yn eithaf hyblyg. Yr arfer yw cael tîm o ryw chwech yn gweithio yn y gegin ar yr un pryd gydag un neu ddau arall yn helpu i weini ar y 'cwsmeriaid' ac yn barod i symud i'r gegin yn ôl yr angen, er enghraifft os bydd rhaid i rywun adael yn gynnar. Dylid pwysleisio bod y tîm yn cynnwys merched a dynion ac nid yw pob un yn perthyn i'r eglwys, er bod y rhan fwyaf yn aelodau yn Sant Paul, yn bennaf yn y gynulleidfa Saesneg a nifer ohonynt yn dysgu Cymraeg.

Nid oes pris penodol am y cinio ac mae croeso i unrhyw un ddod a mwynhau'r bwyd a'r cyfle i gymdeithasu. Gwahoddir pob un i dalu faint mae'n meddwl yw gwerth y bwyd gan gymryd i ystyriaeth faint mae'n gallu ei fforddio.

Fel enghraifft o'r hyn a gynigir dyma fwydlen ddiweddar:

cawl madarch (madarch, winwns, llaeth almond, ciwb stoc, persli, halen a phupur).

caserol llysiau gaeaf (moron, pannas, tatws, winwns, ciwb stoc) gydag ysgewyll wedi'u rhostio a chig moch (os dymunir; y cig wedi'i roi gan far coffi'r Ganolfan).

salad ffrwythau neu grymbl afal

Er mwyn dangos amrywiaeth yr hyn a gynigir o wythnos i wythnos, dyma fwydlen ddiweddar arall:

cawl pannas a llysiau (winwns, tatws, pannas, seleri, perlysiau, halen a phupur)

cyrri tikka massala (winwns, pannas, seleri, tomatos, bresych, afal, perlysiau, basil, ffachys cosh, halen a phupur) gyda potato wedges a salad sicori (sicori, letys, seleri, cwrens, afal)

bara banana neu grymbl afal a chwstard.

Gallaf dystio o brofiad bod y bwyd bob tro yn flasus dros ben!



# Dau yn Well nag Un

## *gan Owen Morris*



"***Dau yn well nag un***" oedd thema'r cyfarfod a gynhaliwyd yn Horeb, Bae Colwyn ar fore Mercher y 6ed o Chwefror. Hwn oedd y tro cyntaf inni ddod ynghyd i drafod sut y gallwn gefnogi'n gilydd a sefydlu Grŵp Cristnogol Gofal Canser yn lleol. "***Os bydd y naill yn syrthio, y mae'r llall yn gallu ei godi***" (Pregethwr 4:9).

Roedd criw da yn bresennol, yn cynrychioli sawl enwad, a thros baned o de, coffi a chacennau buom yn trafod yn anffurfiol y posibilrwydd o gychwyn Grŵp Cristnogol Gofal Canser yn ardal Conwy.

Ar ôl gweddi agoriadol a chyflwyniad i'r weledigaeth, cafwyd sgwrs ddiddorol gan Fiona Evans, Arweinydd Ymgysylltu Macmillan Gogledd Cymru. Fe wnaeth Fiona olrhain hanes elusen canser Macmillan a thrafod sut y gall y mudiad gydweithio mewn partneriaeth â Grŵp Cristnogol Gofal Canser.

Beth sydd gennym ni fel dilynwyr yr Iesu i'w gynnig ym maes gofal canser? Yn syml iawn, y ffaith fod yna stori arall lle gallwn ni fyw ein bywydau: mae'n stori o drugaredd, o letygarwch, o dosturi a haelioni ac mae'n stori ar gyfer heddiw yn ogystal â stori i'r dyfodol. Ein braint yw rhannu'r stori hon â'r gymdeithas yr ydym yn rhan ohoni.



Gweledigaeth Grŵp Cristnogol Gofal Canser Conwy yw'r gred, os byddwch wedi eich gwreiddio yn ddwfn yn yr Arglwydd, y bydd Ef yn eich cynnal â'i gariad ynghanol storom canser. Dyma le i ganfod cyfeillgarwch, heddwch, anogaeth a chefnogaeth, ac i godi'r naill a'r llall o flaen Duw mewn gweddi. Ein prif nod fel dilynwyr yr Iesu yw dod â gobaith ac anogaeth i'r rhai sy'n dioddef, a'u hatgoffa bod Duw yn eu caru a pha mor bwysig ydynt i Dduw, a pha mor bwysig ydynt i eraill o'u cwmpas.

"***Byddwch wresog yn eich serch at eich gilydd fel brawdoliaeth. Rhowch y blaen i'ch gilydd mewn parch***". (Rhufeiniaid 12:10)

Ar ôl trafodaeth frwd a llawer o gwestiynau am y ffordd ymlaen, fe benderfynwyd ein bod am fynd ati i ddatblygu'r syniad ymhellach.

Diolch i Pauline a Wendy am baratoi lluniaeth mor ardderchog; i Fiona o Macmillan am ei chyfraniad a'i pharodrwydd i gefnogi'r fenter newydd; i Ken am y lluniau ac i Horeb am gael defnyddio'r ysgoldy.

# Capel Ni yn Eglwys Iesu

**DYDD GWEDDI**
Yng Nghapel y Rhos y cynhaliwyd Dydd Gweddi'r Byd eleni, gyda'r thema 'Dewch – mae popeth yn barod'. Cymerwyd rhan gan chwiorydd Capel y Rhos, Ebeneser a Hebron. Yn ein cynrychioli ni roedd Gwenllian a Rhiannon. Y Parchg Helen Wyn Jones oedd yr arweinydd a Mrs Gwenda Roberts oedd yn cyfeilio. Cawsom baned a chacennau derbyniol iawn ar y diwedd.

**GOHEBYDD .** RHIANNON JONES

## Salem, Rhyd y Foel

**COFION**
Ychydig wythnosau'n ôl fe dderbyniodd Miss Kathleen Williams, ein haelod hynaf, lawdriniaeth ar ei chalon yn Ysbyty Broad Green, Lerpwl. Dymunwn yn dda iddi fel Eglwys. Bu Mrs Catherine Blythin hithau yn Ysbyty Glan Clwyd a chael llawdriniaeth, a daeth anffawd hefyd i ran Mrs Christine Pugh, pan fu iddi ddisgyn a thorri ei braich yn ei chartref. Yr un yw ein dymuniad am wellhad i chi eich dwy, ac anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb o'n haelodau annwyl nad ydynt yn abl i fynychu'r oedfaon.

**CROESO**
Pleser i ni fel capel yw croesawu Mrs Margaret Roberts a'i mab Wyn, Ty'n Ddôl, sydd wedi ymaelodi gyda ni. Mae Mr John Roberts, sef priod Margaret, eisoes wedi ymaelodi yn Salem. Bu'r teulu'n aelodau ffyddlon am flynyddoedd lawer yng nghapel Rehoboth, Y Dawn – John yn flaenor a Margaret ac Wyn yn organyddion ffyddlon nes i'r achos ddirwyn i ben ychydig o flynyddoedd yn ôl. Maent yr un mor selog yn Salem a Mrs Roberts yn un o'n horganyddion bellach. Caffaeliad mawr i ni fel capel.

**PROFEDIGAETH**
Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf â Mrs Iola Roberts, Plas Onn ym marwolaeth ei chwaer Mrs Mair Lloyd Williams, Fferm Tŷ Gwyn, Llanrwst.

**GOHEBYDD .** SIÂN PRICE

## Ebeneser, Treuddyn

**PEN-BLWYDD ARBENNIG**
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Mrs Ena Pritchard ar achlysur pen-blwydd arbennig yn ddiweddar, sef 90 oed. Hefyd, gobeithiwn y caiff hi iechyd gwell y flwyddyn hon.

**Y GYMDEITHAS**
Cynhelir cyfarfodydd nesaf y Gymdeithas ar nos Fercher, Ebrill 3ydd a nos Fercher Mai 1af. Mrs Margaret Morgan fydd yng ngofal y noson ar Ebrill 3ydd. Y siaradwr i'w gadarnhau ar gyfer Mai 1af ac yna ar nos Fercher, Mehefin 5ed bydd Kevin Matthias yn annerch y Gymdeithas. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni. Cynhelir ein Harwerthiant Blynyddol yn Hafan Deg ar ddydd Sadwrn, Mai 4ydd am 2 o'r gloch.

**RALI FLYNYDDOL**
Ar nos Sul, Mehefin 9fed cynhaliwn ein Rali flynyddol pan fydd Wendy Swan yng ngofal y gwasanaeth. Ein gobaith yw y bydd nifer helaeth o'r gymuned yn ymuno â ni yn y gwasanaeth arbennig yma, a bydd yna groeso cynnes i bawb.

**GWELLHAD BUAN**
Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan at bawb sy'n wael ar hyn o bryd, gan gofio yn arbennig am Mrs Eiddwen Jones sydd wedi derbyn triniaeth unwaith eto.

**GOHEBYDD .** GLENYS DAVIES

## Horeb, Croesoswallt

**CYDYMDEIMLO**
Daeth profedigaeth i ran Mrs Beryl Powell a'r teulu trwy farwolaeth ei brawd, Mr Eldon Ashford, ar ôl cystudd blin. Mae teulu Henlle wedi colli modryb o ardal y Foel. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf at y ddau deulu yn eu galar.

**TI A FI**
Mae cylch meithrin "Ti a Fi" wedi cychwyn yn y dref ac yn cyfarfod yn festri Horeb yn wythnosol. Cyfle yw hwn i rieni ddod â'u babanod i gymysgu, chwarae a chymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg.

**OEDFAON**
Yn ystod y misoedd diwethaf cawsom y fraint o wrando ar y cyfeillion canlynol: Y Parchg Gwilym O. Jones, Mr Richard Jones, Mrs Elizabeth Jones, Mr Eirwyn Pierce Jones, Mr Thomas Morris, Mr David Barker Jones, y Parchg Ddr Nerys Tudor, y Parchg Roger Ellis Humphreys, Mr Tom Ellis a'r Parchg Dilys Jones. Diolchwn yn fawr iddynt am eu gwasanaeth.

**Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL**
Daeth Tom Ellis, Llanfyllin, atom ar yr 11eg o Chwefror, ynghyd â'i fab Huw, i rannu atgofion trwy gyfrwng sleidiau am ei blentyndod ef a'i efaill John yng Nghwmnantyfyllon. Soniodd am y modd yr aeth y ddau ohonynt i'r un cyfeiriad i hyfforddi i fod yn athrawon addysg gorfforol ac fel y daeth yn ôl i'w filltir sgwâr i ddysgu, a John yntau i Lanfair Caereinion. Cawsom noson ddifyr iawn yng nghwmni Tom a Huw.

**GOHEBYDD .** EURWYN JONES

## St Paul, Aberystwyth

**GWASANAETHAU UNEDIG**
Cynhaliwyd gwasanaeth dwyieithog unedig ym mis Ionawr ar gyfer capeli ac eglwysi Aberystwyth yn ystod yr wythnos Weddi am Undod Cristnogol eleni yn Eglwys Sant Mihangel.

Ar fore Sul cyntaf mis Mawrth trefnwyd gwasanaeth unedig ar gyfer cynulleidfaoedd Cymraeg y dref i ddathlu Gŵyl Dewi Sant. Cynhaliwyd yr oedfa yng Nghanolfan Morlan dan arweiniad y Parchedig Eifion Roberts, gweinidog Capel y Morfa (Presbyteriaid). Y pregethwr oedd Mr Owain Roberts o gapel Seion (Annibynwyr).

**CYDYMDEIMLO**
Roedd yn flin gennym glywed am farwolaeth tad Michael Edwards. Fel cynulleidfa cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Michael a Fran a'r teulu i gyd yn eu galar. Clywsom hefyd gyda thristwch am farwolaeth Mrs Mabel Owens oedd yn arfer dod atom am gyfnod yn y gorffennol. Anfonwn ein cydymdeimlad cywir at ei theulu a'i chyfeillion.

**GOHEBYDD .** LIONEL MADDEN

## Bethel, Prestatyn

**CROESO I'R BABAN**
Llongyfarchiadau mawr i Siôn Huw a Rachel Davies ar enedigaeth eu merch fach Rhiannon Grace, chwaer fach i Joseff ac Arthur. Edrychwn ymlaen at gael ei chwmni yn yr oedfaon ac yn yr Ysgol Sul.



**DYDD GWEDDI BYD-EANG**
Daeth newid mawr eleni yn y Gwasanaeth Gweddi Byd-eang oherwydd nid yw yn arbennig i'r chwiorydd bellach ond yn fwy cyffredinol ei apêl. Braf oedd cymryd rhan mewn gwasanaeth a gynhelir ar draws y byd ar y dydd Gwener cyntaf ym mis Mawrth. Cynhaliwyd ein gwasanaeth ni ar y cyd gyda merched Rehoboth. Diolch i bawb a gymerodd ran ac i Gaynor ac Eluned am baratoi'r bwrdd.



**TŶ CAPEL**
Mae Laura, Paul a Palmer wedi symud allan o'r Tŷ Capel erbyn hyn a dymunwn bob hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd yn Rhuddlan. Rydym yn ddiolchgar iawn am eu gwaith yn cadw'r capel yn lân ac yn drefnus dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn falch iawn y byddwn yn parhau i gael cwmni Laura a Palmer yn yr oedfaon. Bwriadwn osod y Tŷ Capel yn fuan ac rydym yn hysbysebu am Ofalwyr newydd i'r Capel.

**Y GYMDEITHAS LENYDDOL**
Testun ein cyfarfod yn Ionawr oedd 'Ieir' a chafwyd sgwrs ddiddorol iawn gan Mr Elfed Evans. Difyr iawn oedd clywed ei hanes a sut y daeth mor hoff o ieir, diddordeb a gychwynnodd yn blentyn ifanc pan brynwyd ceiliog dandi iddo. Daeth â thair iâr hyfryd i ddangos i ni, un ohonynt wedi ennill yn Sioe Amaethyddol Llanelwedd. 'Dilyn y Porthmyn' oedd testun ein cyfarfod mis Chwefror a chawsom sgwrs hynod o ddiddorol gan Mrs Ann Jones Evans.

**YR YSGOL SUL**
Plant y Beibl yw ein thema y tymor yma ac mae'r plant lleiaf wedi mwynhau gludo gwellt at Collage mawr i greu cawell y baban Moses. Mae'r plant hŷn wedi bod yn brysur yn lliwio, torri allan a gludo lluniau i ddeall stori Moses yn faban. Y neges bwysig, i'r plant ac i ni oll, yw fod gan Dduw gynllun i Moses a chynllun hefyd i bawb ohonom.

Mae llawer o'r plant yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Gwnewch eich gorau! Rydym yn dymuno'n dda i chi i gyd.

Mae'n draddodiad i ni ddathlu pen-blwydd yn yr Ysgol Sul gyda chacen. Roedd y plant hŷn yn hapus iawn i flasu cacen siocled Carys ar ôl canu pen-blwydd hapus.

**GOHEBYDD .** GWENDA HUMPHRIES

## Ardal Bathafarn

**GWASANAETH UNDEBOL**
Daeth holl eglwysi'r dref ynghyd i Eglwys Sant Pedr i wasanaeth dan arweiniad y Parchedig Stuart Evans. Cawsom ein hannog i ddod at ein gilydd fel Eglwysi er mwyn helpu'r rhai sy'n llai ffortunus a herio anghyfiawnder. Mewn grwpiau, buom yn siarad â'n gilydd am anghyfiawnderau'r oes. Cymerwyd rhan yn yr oedfa gan aelodau o wahanol eglwysi a chynrychiolwyd Bathafarn gan Elizabeth. Mewn undeb y mae nerth ac mae angen inni ddysgu o ddoe, byw er mwyn heddiw a gobeithio am yfory.

**GWELLHAD BUAN**
Anfonwn ein cofion cynhesaf am wellhad buan at y Parchg Martin Evans-Jones, Olwen Jones, Rhydymeudwy, Helen Wynne, Llew Jones a Lorna Wynne. Cofion hefyd at Margaret Hughes yn Abbeyfield, Eva Rogers Jones ym Mryn Derwen, Gretta Davies yn Nolwen ac Ifor Parry ym Mhlas Gwyn.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â Gwenno, cymar Siôn Hughes, o golli mam annwyl yn sydyn yn Llanberis. Cydymdeimlwn hefyd â Siôn ac Elin (merch Dafydd a Lucy) o golli mam a mam-yng-nghyfraith annwyl; ac â Rob ac Edwina Stephens o golli chwaer a chwaer-yng-nghyfraith annwyl yn Norfolk. Yr un yw ein cydymdeimlad â Marian Thomas, Corwen, y bu farw cyfnither iddi yng Nghaerdydd. Tristwch mawr i bawb a'i hadnabu fu clywed am farwolaeth annhymig Gwenda Owen; cydymdeimlwn â'r Parchedig John Owen a'r teulu. Meddwl amdanoch yn eich hiraeth am anwyliaid.

**DATHLU**
Llongyfarchiadau calonnog iawn i Hefin a Lois Hughes ar enedigaeth merch fach ac i Rhian ar ddod yn nain unwaith eto a Gwyn Williams yn hen daid eto. Pob bendith arnoch fel teuluoedd.

**CYMDEITHAS BATHAFARN**
Braf oedd cael cwmni Catrin Price o fudiad Gweithredu dros Blant, i sgwrsio am ei gwaith yn helpu pobl ifanc yn yr ysgol. Rydym i gyd yn sylweddoli'r pwysau sydd ar ieuenctid heddiw ac mae'r gwaith hwn yn arbennig iawn. Cafwyd cyfle i ofyn cwestiynau a thrafod gyda Catrin. Diolchwyd iddi gan y Parchg Martin Evans-Jones a darparwyd paned gan Dilys a Lowri. Rydym yn gwerthfawrogi caredigrwydd gofalwyr Llys Awelon sydd yn gadael inni ddefnyddio'r ystafell yno tra bydd y capel yn cael ei adnewyddu.

**OEDFAON**
Cafwyd Oedfa Gymun dan ofal y Parchg Martin Evans-Jones a hefyd oedfa o drafodaeth ar stori 'Tawelu'r Storm ar y Môr'. Cafwyd atebion amrywiol i'r cwestiwn 'beth y mae ffydd yn ei olygu i ni?'. Bu'r Parchg Marc Morgan yn cynnal oedfa yng Nglyndyfrdwy. Rhodri oedd llywydd y mis yn Ionawr a Rhian yn cyfeilio. Yn Chwefror braf oedd cael cwmni'r Parchg Elfed ap Nefydd Roberts a'i briod Eiddwen. Cafwyd neges arbennig ganddo. Fe'i croesawyd gan Elizabeth a





**SUL Y BLODAU**
Pnawn dydd Sul 14 Ebrill am 2pm, cynhelir gwasanaeth arbennig Sul y Blodau yng Nghanolfan Awelon, Rhuthun. Pregethir gan y Parchg. Ddr Jennie Hurd.

chyfeiliwyd gan Rhian. Roeddem hefyd yn falch o groesawu'r Diacon Stephen Roe, a soniodd yn ei neges bwrpasol am y Gwanwyn yn dod ag adfywiad i ni.

### DYDD GWEDDI'R BYD

Cymerwyd rhan yng ngwasanaeth y Dydd Gweddi, a baratowyd eleni gan chwiorydd Cristnogol Slofenia gyda'r teitl 'Dewch, mae popeth yn barod', gan Olwen, Elizabeth, Edwina, Rhian a Meta. Diolch i gyfeillion y Tabernacl am eu croeso a'u paratoadau ar ein cyfer.

**GOHEBYDD .** ELIZABETH JONES

# Dathlu ym Methel, Deganwy

Cawsom fore arbennig iawn ym Methel, Deganwy ar 24 Mawrth eleni pan gynhaliwyd parti i ddathlu pen-blwydd y chwaer Margaret Jackson, un o'n haelodau ffyddlon. Braf iawn oedd cael cwmni cynifer o aelodau a chyfeillion. Brodor o Bradford, Swydd Efrog yw Margaret yn wreiddiol, ond wedi ymgartrefu'n hapus yn ardal Conwy ers y flwyddyn 1966.

Ymhen rhai blynyddoedd fe ddaeth yn aelod yng Nghapel Bethel a bu'n aelod selog, gweithredol a ffyddlon ar hyd y blynyddoedd ers hynny.

Cawsom achlysur hwyliog a chyfeillgar iawn a phawb, o'r hynaf i'r ieuengaf, yn mwyhnau y gymdeithas. Cafwyd hwyl yng nghwmni plant ifanc y Diacon Jonathan Miller yn ogystal ag un plentyn bach iawn sef Emrys (9 mis oed). Fe'i gwelwch yn y llun gyda'n haelod hynaf sef Dennis sydd yn 94 mlwydd oed. Ar ôl mwynhau paned a danteithion, dymunwyd yn dda i Margaret gan un o gyfeillion Bethel sef Owie Morris o Horeb, Bae Colwyn, a chanodd pawb 'Pen-blwydd Hapus i Margaret'. Diolch i Megan, Marina a Pat, chwiorydd ffyddlon Bethel, am y paratoadau. Bendith Duw arnynt.

Y Cadeirydd yn pregethu yn y gwahanol Ardaloedd

**Ebrill**
7 Y Cyngor Methodistaidd
14 Bathafarn
21 Ddim ar gael
28 De Gwynedd

**Mai**
5 Gwyliau
12 Powys
19 Dyffryn Clwyd
26 Morgannwg

Gweddïwn am fendith Duw ar ymweliadau'r Cadeirydd ac ar bawb sy'n pregethu'r Efengyl.





Coron ddrain, filain afaeliad, - roddwyd
I ruddio ein Ceidwad,
A'i rhoi i daflu sarhad
Ar goron aur ei gariad.
*Ehedydd Iâl*





## Sefydlu'r Parchedig Euron Hughes yn Weinidog yng Ngofalaeth Bro Caereinion



Cynhaliwyd Oedfa Sefydlu y Parchedig Euron Hughes yn weinidog i'r Arglwydd Iesu Grist yng Ngofalaeth Bro Caereinion ddydd Sadwrn 2 Chwefror 2019, yng Nghapel Moreia, Llanfair Caereinion. Yn yr ofalaeth ran-amser hon mae un ar ddeg o eglwysi'r Annibynwyr, y Presbyteriaid a'r Methodistiaid.

Llywyddwyd yr Oedfa gan y Parchedig Gwyndaf Richards, Llwydiarth. Gofalwyd am y rhannau arweiniol gan Mr John Ellis, Llanfyllin, y Parchedig Anita Ephraim, Gofalaeth Bro Trawsfynydd a'r Parchedig Carwyn Siddall, Llanuwchllyn. Y Parchedig Robert Parry, Wrecsam a ofalodd am ordinhad sefydlu'r Parchedig Euron Hughes yn weinidog yn y fro hon. Offrymwyd Gweddi'r Sefydlu gan y Parchedig Edwin Hughes, Llanbrynmair a thraddodwyd pregeth bwrpasol ac amserol gan y Parchedig Iwan Llewelyn Jones, Porthmadog. Lediwyd yr emynau gan Nia Ellis, Jane Peate, Elen Jones a'r cyn-weinidog, y Parchedig Peter Williams.

Roedd nifer dda o aelodau eglwysi'r Annibynwyr ym Methesda Llanymawddwy, Bethsaida Mallwyd, Ebeneser Dinas Mawddwy, y Tabernacl Dolgellau, a Chapel Coffa Llanelltyd sef Gofalaeth ran-amser arall Euron, yn bresennol. Mr Tecwyn Owen o'r Tabernacl, Dolgellau a gyflwynodd dystiolaeth ar eu rhan, ac estynnwyd croeso ar ran Cyfundeb Maldwyn gan y Parchedig Gwyndaf Richards. Cyflwynwyd Hanes yr Alwad gan Mrs Buddug Bates, Ysgrifennydd Gofalaeth Bro Caereinion. Roedd cynrychiolwyr o'r gwahanol enwadau yn y cylch hefyd yn bresennol a chafwyd cyfarchiad ar eu rhan gan Mr Huw Ellis. Mrs Beryl Jones, Mathrafal oedd yr organydd.

Cafwyd croeso bywiog i'r Gweinidog newydd gan blant ac ieuenctid yr eglwysi ar ffurf sgetsus ac eitemau cerddorol, offerynnol a lleisiol. Daeth yr oedfa i ben yng ngorfoledd lleisiau'r gynulleidfa yn canu 'Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd' ar y dôn *Cwm Rhondda*. Ar derfyn yr Oedfa mwynhawyd bwyd ardderchog yn yr '*Institute*.'

# Symposiwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynwysoldeb

*gan y Diacon Stephen Roe*

Yn dilyn adroddiad a gyflwynwyd i'r Gynhadledd yn 2018, gwahoddwyd pob Talaith i anfon cynrychiolwyr i symposiwm, er mwyn ystyried y cwestiwn 'Cyfiawnder Hiliol – Beth yw ein Galwad?'

Felly dyna bedwar ohonom o Synod Cymru – Jon Miller, Ian Morris, Maryl Rees a minnau – yn ymuno â rhyw 80 o gynrychiolwyr eraill o bob rhan o'r Cyfundeb yng Ngwesty Oxford Belfry ddechrau Mawrth eleni. Nid Cynhadledd draddodiadol mohoni, gyda siaradwyr a thrafodaeth ac efallai ambell benderfyniad yn cael ei basio. Gall cynhadledd felly fod yn aneffeithiol ambell dro ac arwain at ailadrodd yr un camgymeriadau. Yn hytrach, bwriad y Gynhadledd hon oedd defnyddio 'Theory U', sef ffordd o ddysgu oddi wrth y dyfodol fel y daw'n amlwg, gan fod yn sylwgar yn y presennol a synhwyro'r hyn a ddaw yn y dyfodol. Gweithio mewn grwpiau bach wnaethom ni y rhan fwyaf o'r amser ac felly mae'n ddigon posibl y byddai rhai o'r lleill fu yn y Gynhadledd wedi cael argraff gwbl wahanol i'r hyn a gefais i!

Fe'n gwahoddwyd i wrando ar ein gilydd wrth i bawb egluro pam roeddent wedi dod yno, er mwyn inni allu barnu beth oedd y gwir fater dan sylw cyn dechrau cynnig atebion. Yn y grŵp yr oeddwn i ynddo, soniodd gweinidog am y boen o beidio â chael ei dderbyn. Er enghraifft, cyfarfod bugeiliol yn cael ei drefnu ac yna ei ganslo – heb i neb ddweud yn agored mai'r rheswm am hyn oedd fod y gweinidog yn ddu, er mai dyna'r teimlad a gafodd ef. Fe wnaethom edrych ar ffilm yn dweud stori'r mewnfudwyr o'r Caribî yn y 1950au a'r 60au, llawer ohonynt yn wrthodedig mewn eglwysi Methodistaidd er bod rhai eglwysi yn groesawgar, a'r eglwysi hynny wedi cael eu gweddnewid gan y rhai y rhoesant groeso iddynt.

Cynigiwyd inni wahanol fodelau, yn dangos ffyrdd y byddwn weithiau yn ymateb i'r rhai sy'n 'wahanol'. Roeddwn yn teimlo bod y rhain yn berthnasol i ni yma yng Nghymru wrth inni ymwneud â phobl sy'n perthyn i draddodiadau eraill, o ran enwad neu o ran iaith.

- Cymathu – 'eu gwneud nhw yn debyg i ni'
- Gwrthod – 'ewch oddi yma, dydych chi ddim yn perthyn'
- Syncreteiddio – 'anghofio ein gwahaniaethau a chymryd arnom ein bod yr un fath'
- Trawsnewid – 'gennym ni mae'r gwirionedd, felly byddwch chi yn debyg i ni'
- Goddef – 'hunaniaethau gwahanol yn yr un fan ond yn gwneud dim â'i gilydd'
- Llewyrchu – 'creu rhywbeth newydd o'r gwahanol hunaniaethau'

Teimlais ein bod yn ystod y Gynhadledd yn canolbwyntio llawer ar gyflwr pethau yn awr a sut yr hoffem iddynt fod, ond heb fawr o syniad sut i fynd o'r naill i'r llall. 'Teimlo ein ffordd i mewn' oeddem ni yn hytrach na 'meddwl am' beth roeddem yn ei wneud, gan ymddiried yn ein greddf nid ein hymennydd. Roedd hyn yn anodd iawn i mi, efallai am fy mod ormod dan ddylanwad ffordd wyddonol y Gorllewin o feddwl ac ymresymu. Fe'm gadawyd yn pendroni fel hyn: 'Wel ie, ond beth fydd hyn yn ei olygu i'r Eglwys Fethodistaidd gyfan? Tybed fydd y penwythnos yma yn cynnig themâu i'w cynnwys yn yr adroddiad nesaf i'r Gynhadledd?'

Er hynny, fel sy'n digwydd yn aml iawn, y rhan orau o'r penwythnos oedd cwrdd â phobl, rhai yn adnabyddus i mi ac eraill yn ddieithr, a chael clywed eu stori ac adrodd fy stori innau. Roedden yn dod o lawer o wahanol gefndiroedd a diwylliannau ac yn wahanol iawn eu hanianawd a'u tueddfryd, ac eto roedd pawb yn barod i ddysgu gan bawb arall a phob un ohonom yn unedig yn ein hawydd i ddilyn Crist.

# Bwyd i’r meddwl

## *gan Bet Holmes*

*Lentils Malawi*
Mae llawer o bobl wedi gofyn am rysáit heb gig, efallai am resymau cost neu oherwydd eu bod eisiau defnyddio llai o adnoddau’r ddaear, neu efallai er mwyn bod â rhywbeth i’w gynnig i ymwelwyr sy’n llysieuwyr. Mae’r pryd hwn yn hawdd, ac yn gallu cael ei goginio yn y ffwrn wrth ochr y rhost traddodiadol.

Cynheswch y ffwrn i 190°C neu nwy marc 5.

**Cymysgwch**
- 1¾ cwpanaid lentils coch
- 2 cwpanaid dŵr
- 1 deilen llawryf
- 2 lond llwy de o halen
- chwarter llond llwy de o bupur
- pinsiad yr un o marjoram, saets a theim
- 2 winwnsyn wedi’u torri’n fân
- 2 ewin o arlleg, wedi’u torri’n fân iawn
- 2 cwpanaid tomatos tun

mewn dysgl isel 9”x13”.

Rhowch gaead arno a’i roi yn y ffwrn am 30 munud.

Wedyn tynnwch y caead, a chymysgwch i’r lentils
- 2 caretsen fawr, wedi’u sleisio’n ddarnau tenau iawn (⅛”)
- hanner cwpanaid o seleri wedi’i sleisio’n denau

Rhowch y caead yn ôl a phobwch am 40 munud eto, tan i’r llysiau fod yn dyner.
Nawr ychwanegwch
- 2 lwyaid ford o bersli
- 1 pupuryn melys gwyrdd (os mynnwch)
- hanner cwpan o fadarch wedi’u sleisio (os mynnwch)

Taenwch 3 cwpanaid o gaws Cheddar wedi ei gratio dros y gymysgedd a dodwch e nôl yn y ffwrn, **heb** y caead am rhyw 5 i 15 munud, tan i’r caws doddi.

Ces i’r rysáit hon gan ffrind i mi o’r enw Heather Knowles; bu hi a’i gŵr John yn gweithio mewn ysbyty ym Malawi am gyfnod, felly dwi wedi rhoi enw’r wlad brydferth honno ar y rysáit. Mae’n cydfynd yn dda gyda bresych neu broccoli a thato newydd Sir Benfro.



## cartŵn








# O’r **Pen Yma**

gan **Angharad Tomos**

Yn ddiweddar, rydan ni wedi agor caffi cymunedol o’r enw Caffi’r Orsaf ym Mhenygroes. Hen siop oedd ar werth, a rhoddodd pawb gyfraniad, a chawsom ddigon i brynu’r adeilad, a chael grant i’w hailwneud. Mae Pam yn rhedeg y lle, ac yn meddu ar y ddawn i bobi cacennau ardderchog.

Dwi’n falch ofnadwy ei bod wedi mentro, a ninnau hefyd. Dydi Dyffryn Nantlle ddim yn gyrchfan dwristaidd, felly cam o ffydd oedd mentro agor y caffi. Cam i’r tywyllwch ydoedd i Pam hefyd. Er ei bod wedi rhedeg caffi o’r blaen, mae Llanberis yn denu dipyn mwy o bobl ddieithr na Phenygroes.

Ond mae pobl wedi bod yn tyrru i’r caffi, a phobl leol ydynt, ac yn amlwg, roedd galw am fusnes fel hyn. Fel un sydd wedi mynychu caffis erioed, dwi’n meddwl fod iddynt le arbennig mewn cymdeithas. Mae o’n lle i gael cwmni pobl, hyd yn oed os ydych ar eich pen eich hun. Mae cael bod yng nghwmni eraill, a bod mewn lle cyhoeddus lle gallwch weld y byd yn mynd a dod, yn gallu codi’r galon. Dros baned, fe wnaiff rhai agor eu calonnau.

Mynd yn fwy prin mae llefydd fel hyn. Mae cynulleidfa’r capeli yn edwino (a chynulleidfa’r dafarn). Ym Mhenygroes mae sawl siop wedi cau yn ystod y deng mlynedd dwytha, mi gaeodd y banc, ac roedd y post dan fygythiad. Pen draw hyn ydi ei gwneud hi’n anos i bobl gwrdd ar hap â’i gilydd, cymerir yn ganiataol fod gan bawb gyfrifiadur, ac nad oes angen i bobl ymwneud efo’i gilydd wyneb yn wyneb.

Os ydi gwneud popeth yn glinigol effeithiol drwy gyfrifiadur yn beth mor wych, pam mae mwy o bobl nag erioed yn unig, a mwy a mwy o’n pobl ifanc yn dioddef o salwch meddwl?

Rydym oll angen cwmni, ac mae caffis yn hybu cymdeithasu. Mewn byd sy’n cynyddol brysuro, nid peth drwg yw cael hoe am ugain munud. Gallwn deimlo yn ddigon diflas ynglŷn â’n problemau, ond mae paned a chacen yn gallu gwneud i’r rhan fwyaf deimlo yn well. Efallai nad ydym wedi cael amser i alw heibio hwn a hwn, neu hon a hon. Mae siawns, o eistedd mewn caffi, y dowch ar draws rywun rydych wedi meddwl cael sgwrs efo nhw. Yn aml dydyn ni ddim eisiau peri strach i rywun annwyl, wel – ewch i gaffi a gadwch y gwaith gweini i rywun arall!

Nid pob pentref fedr gael caffi, yn naturiol, a dyma lle gall capel lenwi bwlch. Mewn sawl cymuned bellach, mae’r capel yn agor ei ddrysau unwaith yn y mis i gynnig paned, ac mae hwnnw’n wasanaeth hynod o werthfawr. Canu clodydd paned a chacen wna i y tro hwn!

Dyma lun gan Luned Rhys Parri sydd ar y wal yn y caffi.





# TUDALEN Y PLANT



[Llun: John Paul Stanley, YoMinistry.com]

**Y Pasg**
Ar Ddydd Gwener y Groglith byddwn yn cofio sut y cafodd Iesu Grist ei groeshoelio. Y noson cyn hynny, roedd gyda phob un o'i 12 disgybl.

*Yn gynnar y noson honno eisteddodd Iesu wrth y bwrdd, a'i apostolion gydag e. Meddai wrthyn nhw, "Dw i wedi edrych ymlaen yn fawr at gael bwyta'r swper Pasg yma gyda chi cyn i mi ddioddef. Dw i'n dweud wrthoch chi y bydda i ddim yn ei fwyta eto nes i'r cwbl gael ei gyflawni pan ddaw Duw i deyrnasu." Yna cymerodd gwpan o win, adrodd gweddi o ddiolch, ac yna dweud wrth ei ddisgyblion, "Cymerwch hwn a'i rannu rhyngoch. Dw i'n dweud wrthoch chi, fydda i ddim yn yfed gwin eto nes i Dduw ddod i deyrnasu." Yna cymerodd dorth o fara, ac yna, ar ôl adrodd y weddi o ddiolch, ei thorri a'i rhannu i'w ddisgyblion. "Dyma fy nghorff i, sy'n cael ei roi drosoch chi. Gwnewch hyn i gofio amdana i." Wedyn ar ôl bwyta swper gafaelodd yn y cwpan eto, a dweud, "Mae'r cwpan yma'n cynrychioli'r ymrwymiad newydd drwy fy ngwaed i, sy'n cael ei dywallt ar eich rhan chi."* [Luc 22:14-20 beibl.net]

Ar ôl hynny aeth Judas, un o ffrindiau Iesu, allan er mwyn dweud wrth ei elynion sut i'w ddal er mwyn ei ladd. Cafodd Iesu ei groeshoelio, bu farw a chafodd ei gladdu. Yna ar y trydydd dydd fe atgyfododd a dyna rydym yn ei ddathlu ar Sul y Pasg.

## Pasg hapus i bawb!!

